Y cyffylog a'r llwynog

Hunanoldeb / Gwneud Ffrindiau / Ymddiriedaeth

Pan oedd y llwynog ar ei hynt drwy'r dyffryn daeth ar draws cyffylog yn cuddio yng nghanol y tyfiant. Roedd yn aderyn tew, boliog a digon o gig arno.
"Helo, fy ffrind annwyl, meddwl y buaswn i'n taro heibio i gael sgwrs gan dy fod ti'n aderyn mor hardd," meddai'r llwynog.
"Mi ydw i'n teimlo'n dda iawn, diolch," atebodd y cyffylog.
"Diolch i ti am ofyn."
"Beth ddywedaist ti? Dydw i ddim yn clywed yn dda iawn y dyddiau yma," atebodd y llwynog. "Tyrd yn nes yma i mi dy glywed yn well."
"Na," meddai'r cyffylog. "mae'n well gen i aros yng nghanol y tyfiant. Rydw i'n teimlo'n saff yng nghanol y mieri. Mae yna gymaint o anifeiliaid rheibus o gwmpas."
"Beth?" meddai'r llwynog wedi dychryn o glywed beth ddywedodd y cyffylog.
"Ydi, mae'n wir," meddai'r cyffylog.
"Mae'n biti na fuaset yn dod yn nes a thithau yn aderyn mor hardd. Mae ngolwg i yn dechrau mynd hefyd," meddai'r llwynog.
"Na! mae'n well gen i aros yng nghanol y mieri. Efallai y buasai'r anifail rheibus yn rhuthro i lawr y dyffryn." atebodd y cyffylog.
"O! mi anghofiais ddweud wrthyt fod yr anifeiliaid wedi pasio deddf newydd. Does yna'r un anifail yn mynd i ymosod ar anifail arall. Felly mae'n saff i ti ddod allan o ganol y tyfiant," meddai'r llwynog.
"Mi ydw i 'n falch o glywed yr hyn sydd gen ti i ddweud." meddai'r cyffylog "er dy fwyn di."
"Er fy mwyn i?" medda'r llwynog.
"Rydw i'n clywed sŵn ceffylau a chŵn yn agosáu ond does dim rhaid i ti bryderu gan fod y ddeddf newydd wedi dod i rym. Fe gei di aros i sgwrsio efo mi am weddill y dydd.

Wnawn nhw ddim drwg i ti."
Rhuthrodd y llwynog nerth ei draed. Dim ond ei gynffon goch welwyd yn diflannu dros ochr y bryn.
Aeth y cyffylog yn ôl at ei deulu yn y gwrych. "Roeddwn i'n gwybod yn iawn fod yr hen lwynog yn greadur cyfrwys. Ond heddiw rydw i'n credu fy mod innau yn aderyn cyfrwys hefyd. Byddwch yn ofalus o'r rhai sydd yn barod i'ch plesio bob amser. Mae'r rhai sy'n eich caru yn gallu bod yn gyfrwys weithiau. Cofiwch hynny."
Teimlodd y cyffylog ei fod wedi cael diwrnod i'w gofio. Roedd wedi bod yn fwy cyfrwys na'r llwynog hyd yn oed!

O Dduw, helpa fi i fod yn gyfrwys, weithiau. Amen.

- Sut fuasech chi'n disgrifio'r llwynog?
- Sut aderyn oedd y cyffylog?
- Beth ydi ystyr y ddihareb, "Nid wrth ei big mae prynu cyffylog"?